

Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth

Gorffennaf 2020

Ar 25 Chwefror 2020 cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 24 Ebrill 2020.

Yn eu cyfarfod ar 17 Mawrth, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gais gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ymestyn y dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r ddau bwyllgor tan 30 Ebrill 2020.

Yn eu cyfarfod ar 17 Ebrill, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn eto'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad tan 14 Mai 2020, a hynny oherwydd oedi yn yr amserlen seneddol yn San Steffan.

Yn eu cyfarfod ar 6 Gorffennaf, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad tan 24 Medi 2020.

